**EITEM AR YR AGENDA: 15**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**21ain Mehefin 2010**

## PENODI AELOD ANNIBYNNOL I'R PWYLLGOR SAFONAU

**Adroddiad gan Colin Everett, Clerc yr Awdurdod**

## Diden yr Adroddiad

1 Gofynnir i aelodau:
   (i) enwebu pedwar aelod o'r Awdurdod i gyfweld a phenodi aelod annibynnol newydd i'r Pwyllgor Safonau;
   (ii) cytuno y dylid dirprwyo penodiad aelod y panel lleyg i'r Cadeirydd, Prif Swyddog Tân a'r Clerc.

## Cyflwyniad

2 Mae Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau, Samindre Soysa, wedi ymddiswyddo o'r pwyllgor oherwydd salwch yn y teulu.

3 Roedd hysbyseb yn y Daily Post ar 17 Mai a hefyd ar jobswales.co.uk a gwefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, y dyddiad cau oedd 4ydd Mehefin. Derbyniwyd chwe chais.

4 Bydd angen galw ynghyd banel ymgynghorol yn cynnwys dim llai na phum aelod, gydag un ohonynt yn aelod panel lleyg. Bydd y panel cyfweld yn cyfweld a phenodi aelod annibynnol newydd. Caiff yr Awdurdod eu hysbysu o benderfyniad y panel gyfweld yn ystod cyfarfod mis Hydref.

5 Er mwyn symleiddio'r broses oherwydd y cyfnodau rhwng cyfarfodydd llawn yr Awdurdod Tân, cynigir isod y dylid dirprwyo penodi'r aelod panel lleyg i'r Cadeirydd, Prif Swyddog Tân a fi fy hun.

6 Cyfnod dal y swydd i'r aelod annibynnol newydd fydd pedair blynedd.

**Argymhelliad**

7 Gofynnir i aelodau:
  (i) enwebu pedwar Aelod o'r Awdurdod i gyfweld a phenodi aelod annibynnol newydd i'r Pwyllgor Safonau;
  (ii) cytuno y dylid dirprwyo penodi'r aelod panel lleyg ar gyfer y panel ymgynghorol i'r Cadeirydd, Prif Swyddog Tân a'r Clerc.